# Wedi blino ar reolau gwirion?

## Adroddwch reolau an-fuddiol am ofal iechyd gwell

Creëir rhai rheolau neu arferion gwaith gyda'r bwriadau gorau, ond nid ydynt wir yn helpu cleifion nac aelodau staff. Mae Comisiwn Bevan a Llais, mewn partneriaeth â'r Sefydliad ar gyfer Gwella Iechyd, wedi lansio'r ymgyrch 'Rheolau Gwirion'. Rydym am gael eich mewnbwn ar 'reolau di-fudd' neu 'rhwystrau gweinyddol' sy'n atal gofal, yn rhwystro'r rhai sy'n cael neu'n darparu gofal, ac yn gwastraffu adnoddau. Rhannwch eich syniadau i helpu i wella'r profiad ac i wneud gofal iechyd yn fwy effeithlon ledled Cymru.

SGANIWCH

## Cyfathrebu Cymhleth

Dulliau cyfathrebu rhy gymhleth neu wedi dyddio.

Rhaid i staff ddefnyddio peiriannau ffacs i anfon dogfennau yn lle e-bost, gan oedi gwybodaeth bwysig am gleifion.



## Caniatâd Cythryblus

Gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer tasgau syml.

Mae angen cymeradwyaeth reolwyr ar staff i ailarchebu cyflenwadau meddygol sylfaenol fel menig a rhwymynnau.



## Amserlenni Anghyffredin

Amserlenni afresymegol neu anymarferol.

Mae staff wedi'u hamserlennu i fynychu dwy feddygfa wahanol heb amser i deithio.



## Rheolau Rhemp

Rheolau sydd ddim yn gwneud synnwyr.

Mae rheol yn atal cleifion rhag dod â'u crushes eu hunain, gan orfodi nhw i ddefnyddio rhai a gyflenwir gan yr ysbyty hyd yn oed os nad ydynt yn angenrheidiol.




## Gwaith Papur Gwastraffus

Ffurflenni papur gwaith ailadroddus pan fo atebion gwell ar gael.

Mae staff yn gorfod llenwi nifer o ffurflenni gyda'r un wybodaeth.



## Disgwyliadau Dirgel

Normau diwylliannol anesboniedig sy'n achosi anghyfleustra.

Mae staff yn teimlo bod yn rhaid iddynt hepgor egwyliau i gadw i fyny, er bod egwyliau'n cael eu caniatáu, sy'n arwain at flinder eithafol.



## Systemau Sothach

Prosesau aneffeithlon neu gymhleth sy'n gwneud tasgau yn fwy cymhleth.

Mae'n rhaid i staff gwblhau rhestr wirio hir sy'n cynnwys sawl adran, gan droi proses syml yn dasg sy'n cymryd diwrnod cyfan.



RHEOLAU Gwirion

Comisiwn Bevan Commission

LLAIS Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care